



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Prifysgol Bangor

Cynllun Dirprwyo a Phwerau Penderfynu

Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau
12 Ebrill 2019	Cyhoeddiad cyntaf	
16 Ebrill 2021	Adolygwyd ac ail-gymeradwywyd	
7 Gorffennaf 2021	Man newidiadau ac ail-gymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	
28 Ionawr 2022	Man newidiadau ac ail-gymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Dirprwy Ysgrifennydd	Prif Swyddog Gweithredol	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	28 Ionawr 2022

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd

Prifysgol Bangor

Cynllun Dirprwyo a Phwerau Penderfynu

1. Rhagarweiniad

Mae'r brifysgol yn gorfforaeth annibynnol y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn wreiddiol ym 1885. Fe'i cofrestrwyd fel elusen (rhif 1141565) yn 2011. Pennir ei hamcanion, ei phwerau a fframwaith ei threfn lywodraethu yn y Siarter a'r Statudau ategol, y cymeradwyir diwygiadau iddynt gan y Cyfrin Gyngor o bryd i'w gilydd.

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu, a'r awdurdod pennaf, sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y brifysgol, ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r cyfrifoldebau a'r awdurdodau dirprwyedig i wneud penderfyniadau allweddol yn enw Prifysgol Bangor neu ar ei rhan. Rhoddir pwyslais arbennig ar y penderfyniadau hynny a wëir gan Gyngor y brifysgol, neu a ddirprwywyd ganddo, ond mae'r ddogfen hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau eraill am benderfyniadau allweddol, yn unol â Statudau, Ordinhadau a pholisïau cyhoeddedig y brifysgol.

Nid yw'r cynllun hwn yn un llawn a chynhwysfawr ond mae'n ceisio rhoi eglurder am y broses benderfynu ac awdurdodau terfynol mewn perthynas â materion strategol a pholisi allweddol, tra'n darparu fframwaith i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn meysydd eraill.

2. Prif Egwyddorion

1. Paratowyd y cynllun hwn gan gyfeirio'n ofalus at Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r brifysgol, ond dylid nodi mai'r olaf yw'r awdurdod gor-redol, pe bai unrhyw wrthddweud.
2. Lle bo'r Cyngor wedi dewis dirprwyo cymeradwyo a gweithredu penderfyniad neu broses, mae'n cadw atebolrwydd a chyfrifoldeb corfforaethol eithaf dros y penderfyniad neu'r broses honno, a gellir tynnu'r dirprwyo hwn yn ôl ar unrhyw adeg.
3. Oni bai bod y Siarter, Statudau neu Ordinhadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio gyda'r Canghellor, yr Is-ganghellor, y Senedd neu bartïon eraill mewn perthynas â phenderfyniadau neu brosesau allweddol, dylid rhagdybio bod y Cyngor yn cadw'r hawl i awdurdodi mewn meysydd lle mae ganddo'r awdurdod eithaf.
4. Fel prif weithredwr ac uwch swyddog academiaidd y brifysgol, mae'r Is-ganghellor yn gyfrifol i Gyngor y brifysgol - o fewn y fframwaith a bennir gan y Siarter, Statudau ac Ordinhadau, Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r cod rheolaeth ariannol rhwng y brifysgol a HEFCW, rheoliadau ariannol y brifysgol a'r Cynllun Dirprwyo a Phwerau Penderfynu hwn - ar gyfer rheolaeth weithredol pob agwedd ar waith y brifysgol. Gall yr Is-ganghellor ddirprwyo cyfrifoldeb am agweddau penodol ar reolaeth y brifysgol i'r Pwyllgor Gweithredu ac i swyddogion a deoniaid y brifysgol, ond ganddo ef/ganddi hi y mae'r cyfrifoldeb eithaf.

5. Mae'r dirprwy is-gangellorion/penaethiaid coleg yn gyfrifol i Gyngor y brifysgol (trwy'r Is-ganghellor) am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol eu priod golegau yn unol â'u disgrifiadau swydd a pholisïau a rheoliadau ariannol y brifysgol. Gallant ddirprwyo cyfrifoldeb dros agwedd benodol ar reolaeth coleg i'r deoniaid ac aelodau eraill o dîm gweithredu'r coleg (neu gyffelyb) ond hwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli eu colegau.
6. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol i Gyngor y Brifysgol (trwy'r Is-ganghellor) am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol gwasanaethau proffesiynol yn unol â'u disgrifiadau swydd a pholisïau a Rheoliadau Ariannol y Brifysgol. Gallant ddirprwyo cyfrifoldeb dros agweddau penodol ar y gwasanaeth i gyfarwyddwyr, ond hwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli eu gwasanaethau.
7. Pan mae pŵer wedi ei ddirprwyo, mae'n hanfodol bod yr uwch reolwr y dirprwywyd awdurdod iddo/iddi yn sicrhau bod fframweithiau a gweithdrefnau priodol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb cyn dirprwyo ymhellach. Ymhellach, rhaid i unrhyw ddirprwyo cyfrifoldeb pellach hefyd fod yn amodol ar weithdrefnau cyffredinol y brifysgol ar gyfer trafodion ariannol a materion polisi, a chael ei lywio ganddynt.
8. Diffinnir pwerau'r Senedd yn y Siarter, fel *awdurdod academaidd y brifysgol, sy'n gyfrifol am y gwaith academaidd ym maes addysgu ac ymchwil ac am reoleiddio ac arolygu addysg a disgyblaeth myfyrwyr. Caiff y Senedd weithredu unrhyw swyddogaethau eraill a roddir iddi gan yr Ordinhadau.*

Gall y Senedd ddirprwyo rhai o'i phwerau i is-bwyllgorau neu fyrddau coleg, ac mae gan y Senedd hefyd yr hawl i drafod a datgan barn am unrhyw fater academaidd sy'n ymwneud â'r brifysgol a bydd Cynghor y brifysgol yn cymryd hynny i ystyriaeth. O ran materion academaidd, yr Is-ganghellor yw cadeirydd y Senedd yn rhinwedd ei swydd ac felly gall, lle bo angen er budd y brifysgol, wneud penderfyniadau a ran y Senedd o fewn ei phriod feysydd (rhoddir gwybod am benderfyniadau o'r fath i gyfarfod nesaf y Senedd).

9. Ac eithrio fel y darperir yn wahanol, gall unigolion a chyrrff y mae awdurdod wedi ei ymddiried iddynt gan y Cynllun Dirprwyo a Phwerau Penderfynu hwn, is-ddirprwyo i eraill ar yr amod bod is-ddirprwyo o'r fath yn gyson â rheoliadau ariannol a rheoliadau eraill ac yn cael ei gofnodi a'i adrodd (er enghraifft i'r Cyfarwyddwr Cyllid mewn perthynas â lefelau awdurdod ariannol).
10. Os bydd digwyddiad neu argyfwng mawr, cydnabyddir y gall fod angen gwneud penderfyniadau mewn ffordd wahanol i'r trefniadau arferol a amlinellir yn y cynllun hwn. Mae nifer o drefniadau wedi eu sefydlu i gefnogi amgylchiadau o'r fath. Amlinellir awdurdodau a chyfrifoldebau penodol yn achos digwyddiad neu argyfwng mawr ym mholisi'r brifysgol ar reoli argyfyngau.
11. Bydd y ddogfen hon yn parhau i fod yn ddogfen fyw a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd fel sy'n briodol. Bydd y fersiwn ddiweddaraf yn cael ei chadw gan y Dirprwy Ysgrifennydd/Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu a bydd yn destun adolygiad rheolaidd, bob tair blynedd o leiaf, gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

3. Natur y Cynllun

Mae prif fframwaith y cynllun yn amlinellu pwerau penderfynu ar draws y tri chategori eang canlynol:

a) Awdurdodau Cyngor y brifysgol/neu a bennwyd ganddo

Eglurhad ar brif gyfrifoldebau'r Cyngor fel y diffinnir hwy yn Statud 12 ac Ordinhad 3 gan gynnwys manylion unrhyw ddirprwyo cyfrifoldebau a bennir gan y Cyngor.

b) Awdurdodau a Bennir gan Statud ac Ordinhad

Ar wahân i gyfrifoldebau'r Cyngor a nodir yn a) uchod, pwerau penderfynu statudol a dirprwyedig eraill a nodir yn Siarter, Statudau ac Ordinhadau'r brifysgol ac na ellir felly eu diwygio heb gymeradwyaeth y Cyngor a/neu'r Cyfrin Gyngor.

c) Pwerau Penderfynu Allweddol Eraill

Mae'r rhain yn awdurdodau a phrosesau sydd, er nad ydynt wedi eu cofnodi'n ffurfiol mewn statud neu ordinhad, nac yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfrifoldebau'r Cyngor, serch hynny yn elfennau allweddol o strwythur gwneud penderfyniadau'r brifysgol ac maent wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn fel ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol.

4. Diffiniadau

Mae "awdurdod" yn cyfeirio at bŵer deilliadol neu ddirprwyedig. Yn achos awdurdod dirprwyedig, dyma'r awdurdod a roddir i unigolyn arall i weithredu ar ran y prif awdurdod hyd at ddiwedd y penderfyniad neu'r broses ddirprwyedig, yn amodol ar unrhyw derfynau a bennir.

Mae "cyfeiriwyd trwy" yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt awdurdod ffurfiol, ond sydd â'r hawl i wneud sylwadau, ac i'r sylwadau hynny gael eu hystyried, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Mae "argymhelliad gan" yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt y pŵer terfynol i wneud penderfyniadau, ond sydd serch hynny yn chwarae rhan ffurfiol yn y broses gymeradwyo. Mae pwyllgorau neu unigolion o'r fath yn argymhell penderfyniad neu bolisiau i'w cymeradwyo'n derfynol.

Mae "adrodd i" yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt awdurdod ffurfiol, ond y dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r mater dan sylw naill ai cyn neu ar ôl gwneud penderfyniad, fel sy'n briodol.

Mae "cyfrifoldebau" lle cyfeirir atynt mewn adrannau cysylltiedig o'r Siarter, y statudau neu'r ordinhadau, gall gynnwys disgrifiadau o swyddogaeth,

dyletswyddau cyffredinol hawliau'r corff neu'r unigolyn dan sylw (e.e. cyfrifoldebau'r Trysorydd fel y nodir hwy yn Statud IV ac Ordinhad XXIV)

5. Is-gwmnïau

Mae is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol yn cael eu llywodraethu gan eu byrddau eu hunain o ran eu gweithrediadau. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir y bydd unrhyw ddirprwyo a weithredir ganddynt yn gyson â'r rhai a amlinellir ar gyfer y brifysgol yn y ddogfen hon.

Mae'r brifysgol yn sefydlu fframwaith rheoli o fewn y *Polisi a Gweithdrefnau Is-gwmnïau* y mae'n rhaid iddi weithredu o'i fewn. Mae hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- a) Penodir yr holl gyfarwyddwyr a'r cadeirydd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar ran y Cyngor.
- b) Bydd yr erthyglau yn pennu terfynau ar eu cylch gweithredu na ellir eu diwygio heb gydsyniad cyfranddalwyr a'r brifysgol.
- c) Rhaid iddynt gyflwyno cynllun busnes yn flynyddol a fydd yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a chytunir ar gyllideb ar ei sail.
- d) Efallai y gofynnir iddynt o bryd i'w gilydd ddarparu cynllun strategol, neu ddiweddariad ohono.
- e) Gwneir yr holl drafodion ariannol trwy'r Swyddfa Gyllid, gan gynnwys y gyflogres, taliadau, prosesu incwm, arian parod, bancio etc. Bydd angen cefnogaeth y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar gyfer unrhyw gynnydd mewn cyfleusterau benthyg neu gredyd.

6. Dirprwyo i'r Cadeirydd

Noda Ordinhad 10:

Awdurdodir cadeiryddion y Cyngor, y Senedd a phob pwyllgor ohono drwy hyn i benderfynu ar faterion brys ar ran y corff y maent yn ei gadeirio.

At ddibenion yr Ordinhad hwn, bernir bod 'materion brys' yn cynnwys:

- (a) *materion yn ymwneud â gweithredu'n fanwl faterion a pholisïau y penderfynwyd arnynt eisoes gan y corff dan sylw*
- (b) *cyflawni busnes arferol nad yw'n ddadleuol, neu*
- (c) *faterion y byddai oedi yn eu cylch yn debygol o greu anhawster diangen a/neu beryglu buddiannau'r brifysgol.*

Rhoddir gwybod am unrhyw gamau gweithredol a gymerir gan gadeirydd o dan delerau'r ordinhad hwn yn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y corff dan sylw.

Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredol o'r fath, gall y cadeirydd ymgynghori'n anffurfiol ag unrhyw aelodau o'u pwyllgor sy'n briodol yn eu barn hwy.

Bydd gan unrhyw gadeirydd sy'n ystyried bod mater brys a gyfeiriwyd ar gyfer penderfyniad gweithredol yn haeddu ystyriaeth gan y corff dan sylw y pŵer i gynnull cyfarfod arbennig o'r corff i ystyried y mater penodol hwnnw. Bydd unrhyw gyfarfod arbennig o'r fath yn cael ei gynnal, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol, o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r cadeirydd benderfynu cynnull cyfarfod, beth bynnag fo darpariaethau unrhyw reolau sefydlog perthnasol i'r corff hwnnw; ystyrir bod y rheolau hynny wedi eu hatal dros dro i ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal.

7. Amgylchiadau Brys

Yn absenoldeb egwyddor bendant o awdurdod dirprwyedig, neu os bydd ansicrwydd ynghylch pwy y dylid dirprwyo penderfyniad neu broses iddo/iddi, yr egwyddor arweiniol ddylai fod i 'gyfeirio'r mater tuag i fyny'. Ni ddylai'r bobl neu'r grwpiau hynny y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt am wneud penderfyniadau ddirprwyo'r penderfyniad ymhellach heb gymeradwyaeth.

Yn absenoldeb yr awdurdod terfynol a'r awdurdod dirprwyedig, rhaid trosglwyddo penderfyniadau i'r Is-ganghellor neu Gadeirydd y Cyngor fel sy'n briodol.

8. Rhestr o Awdurdodau Terfynol a Dirprwyedig

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
8.1	Llywodraethu a rheolaeth			
	Diwygiadau i'r Siarter	Cyfrin Gyngor		Siarter XXII, trwy Benderfyniad Arbennig y Llys, a gyfeirir drwy'r Senedd a'r Cyngor
	Diwygiadau i Statudau	Cyfrin Gyngor		Siarter XVI, trwy Benderfyniad Arbennig y Cyngor, a gyfeirir drwy'r Senedd a'r Llys
	Gweithredu cyfrifoldebau'r Cyngor	Y Cyngor	Cadeirydd y Cyngor (Ordinhad XXXII) Pwyllgorau'r Cyngor (fel y nodir) (Ordinhad 15)	Ordinhad 1 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dewis dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'w bwyllgorau fel y nodir yn Ordinhad 10
	Gweithredu cyfrifoldebau'r Pwyllgor Gweithredu	Y Cyngor	Grwpiau Strategaeth a Grwpiau Tasg Byrddau, Grwpiau Llywio neu Bwyllgorau	Ordinhad 16

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Cymeradwyo Ordinhadau newydd a diwygiedig	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Ordinhad 10. Ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
	Cymeradwyo Rheoliadau newydd a diwygiedig	Y Senedd	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd	Ordinhad 12
	Cymeradwyo Rheolau Sefydlog newydd a diwygiedig	Y Cyngor		Ordinhad 1
	Defnyddio Sêl y brifysgol	Y Cyngor		Ordinhad 8
	Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl Pwyllgorau Prifysgol	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Ordinhad 1 Yn achos aelodaeth pwyllgor aelodau'r Cyngor, argymhellir hyn i'r Cyngor gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Cyngor Caiff penodiadau'r Senedd i bwyllgorau'r Cyngor eu hargymhell i'r Senedd gan Bwyllgor Enwebiadau'r Senedd.
	Datganiadau Budd	Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol	Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu	Ordinhad 11 - bob blwyddyn bydd y Dirprwy Ysgrifennydd yn gofyn i holl aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
				Gweithredu, cyfarwyddwyr y gwasanaethau proffesiynol a deoniaid lenwi/diweddaru ffurflen gofrestr buddiannau
8.2	Datblygu Strategaeth a Pholisi			
	Cymeradwyo Cynllun Strategol y brifysgol [Sylwer y bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor i strategaethau mawr e.e. Strategaeth Ystadau, ond y Pwyllgor Gweithredu fydd yn cymeradwyo rhai is-strategaethau]	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth Pwyllgor Gweithredu	Ordinhad 15, Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Strategaeth Cyfeirir drwy'r Pwyllgor Gweithredu a thrwy bwyllgorau'r Senedd/y Cyngor fel sy'n briodol
	Cymeradwyo Ffurflen Sicrwydd Blynyddol a Rhagolygon Ariannol i HEFCW	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth Pwyllgor Archwilio a Risg	Rhagolygon ariannol a gyfeirir trwy'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Nodir gan HEFCW yn y cod rheolaeth ariannol bod rhaid cael cymeradwyaeth Y Cyngor
	Prosesau cymeradwyo Risg	Y Cyngor		Cyfeirir trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Cymeradwyo polisiâu corfforaethol sy'n effeithio'n sylweddol ar yr amodau gwaith neu'r amgylchedd ar gyfer staff a myfyrwyr, a/neu bolisiâu sy'n effeithio ar frand a/neu enw da'r brifysgol	Y Cyngor		Cyfeirir trwy'r Pwyllgor Gweithredu a thrwy bwyllgorau eraill y Senedd/y Cyngor fel sy'n briodol
	Cymeradwyo polisiâu corfforaethol eraill sy'n ymwneud â meysydd penodol neu faterion mwy gweithredol	Pwyllgor Gweithredu		Cyfeirir trwy'r grŵp strategaeth neu'r grŵp tasg perthnasol fel bo'n briodol
8.3	Penodiadau a Materion Staffio			
	Penodi Canghellor	Y Cyngor		Ordinhad 9
	Penodi aelodau annibynnol y Cyngor	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Ordinhad 3; y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
	Penodi pobl i gynrychioli'r brifysgol ar wahanol gyrrff ac is-gwmnïau	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Ordinhad 19, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
	Penodi staff anacademaidd ar y Cyngor	Y Cyngor		Ordinhad 5 ar enwebiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol yn dilyn pleidlais

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Penodi Is-ganghellor	Y Cyngor	Pwyllgor Penodi'r Cyngor	Ordinhad 29; Y Cyngor ar argymhelliad Pwyllgor Penodi'r Cyngor
	Penodi Dirprwy Is-gangellorion a Dirprwy i'r Is-ganghellor	Y Cyngor	Trwy bwyllgor penodi	Statud VI; Y Cyngor ar enwebiad yr Is-ganghellor
	Penodi Ysgrifennydd i'r Cyngor	Y Cyngor		Ordinhad 7 Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
	Penodi archwiliwr neu archwilwyr	Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Risg	Ordinhad 15; penodir yn flynyddol gan y Cyngor
	Penodi penaethiaid ysgolion mewn colegau	Y Cyngor	Is-ganghellor	Gan yr Is-ganghellor ar enwebiad panel penodi
	Penodi rhai i gadeiriau personol, athrawon er anrhydedd, athrawon ymchwil, athrawon a darlennyddion ar ymweliad	Y Cyngor	Pwyllgor yr Athrawon a'r Darlennyddion	Adrodd i'r Cyngor
	Penodi rhai i gadeiriau sefydledig	Y Cyngor	Y Pwyllgor Gweithredu trwy bwyllgor penodi	Adroddiad i'r Cyngor

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Cyflogau staff cadeiriol ac uwch swyddogion	Y Cyngor	Bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Is-bwyllgor Taliadau) yn ystyried cyflogau'r Is-ganghellor, aelodau'r Pwyllgor Gweithredu a staff sy'n derbyn cyflogau o £100,000 ac uwch. Bydd y Grŵp Adolygu Tâl Staff Uwch yn ystyried cyflogau staff sy'n derbyn cyflogau rhwng pwynt uchaf y golofn gyflogau a £100,000.	Ordinhad 15; Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Taliadau
	Proses Ddiswyddo	Y Cyngor	Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Statud XX (Rhan II); Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.
	Gweithdrefnau diswyddo staff, disgyblu a chwynion	Y Cyngor		Statud XX
	Dyfarnu cymrodoriaethau a graddau er anrhydedd	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Ordinhad 15 - adrodd i'r Cyngor. Drwy'r Pwyllgor Graddau Er Anrhydedd a Chymrodoriaethau

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Cymeradwyo gwaith allanol/ymgynghorol gan staff y brifysgol	Penaethiaid Ysgolion / Deoniaid Colegau/Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol	Penaethiaid Ysgolion / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol	Polisi'r brifysgol ar waith ymgynghorol
	Cymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys taliadau a phecynnau iawndal ymddeol/diswyddo	Y Cyngor	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Rheoliadau Ariannol (Adran 7)
8.4	Materion Myfyrwyr			
	Disgyblu Myfyrwyr	Y Cyngor	Is-ganghellor Swyddogion Disgyblu Bwrdd Disgyblu Bwrdd Apêl	Ordinhad 17 a Rheoliad 21
	Cymeradwyo cyfraddau ffioedd dysgu myfyrwyr	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth - trosolwg ar y broses Recriwtio ac argymhelliad y Grŵp Strategaeth	Ordinhad 15 Pwyllgor Cyllid a Strategaeth i gymeradwyo mecanweithiau ar gyfer pennu ffioedd dysgu

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
			Recriwtio Myfyrwyr i'r Pwyllgor Gweithredu	
	Cymeradwyo ffioedd preswyl myfyrwyr	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth - trosolwg ar y broses Pwyllgor Gweithredu	Ordinhad 15 Pwyllgor Cyllid a Strategaeth i gymeradwyo mecanweithiau ar gyfer pennu ffioedd eraill.
	Cymeradwyo arholwyr allanol	Y Senedd	Cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu	Llawlyfr dilysu'r Senedd
8.5	Materion cyllidebol ac ariannol			
	Rheoli refeniw, eiddo a buddsoddiadau	Y Cyngor	Pwyllgor Gweithredu Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15 a 16 Y Cyngor a'r Rheoliadau Ariannol
	Cymeradwyo cyfrifon blynyddol	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth Pwyllgor Archwilio a Risg	Ordinhad 15, Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth / Pwyllgor Archwilio a Risg / Cyfarwyddwr Cyllid
	Cymeradwyo adnoddau na chawsant eu cynnwys yn wreiddiol yng	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth - yn cael awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i gymeradwyo gwariant

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	nghyllideb neu ragolygon cytunedig y brifysgol.			ychwanegol ar brojectau o fewn y cynllun ariannol, neu wariant cyfalaf/refeniw newydd hyd at £1m. Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo rhyddhau adnoddau gwerth mwy na £1m.
	Creu mentrau neu gwmnïau newydd	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Strategaeth
	Cymeradwyo cyllidebau blynyddol	Y Cyngor	Pwyllgor Gweithredu	Ordinhad 16 - Mae'r Pwyllgor Gweithredu yn pennu adnoddau, yn gosod cyllidebau ac yn monitro perfformiad ariannol
	Sicrwydd ar systemau ariannol a systemau rheolaeth fewnol foddhaol eraill	Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Risg	Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg
	Swyddog Cyfrifyddu'r brifysgol	Is-ganghellor		Rheoliadau Ariannol
	Rheoli trysorlys o fewn strategaeth gyffredinol y trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau	Y Cyfarwyddwr Cyllid	Llofnodwyr banc fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Rheoliadau Ariannol

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Sefydlu terfynau benthyca	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15
	Sefydlu cyfleusterau benthyca	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15
	Cymeradwyo gwerthu ecwiti neu drosglwyddo busnes mewn cwmnïau sy'n eiddo i'r brifysgol	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15
	Derbyn rhoddion a gwaddolion	Y Cyngor	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand a'r Is-ganghellor i roddion gwerth llai na £500,000 Y Pwyllgor Gweithredu yn achos rhoddion gwerth dros £500,000; hysbysir y Cyngor am y rhain.	Polisi ar Dderbyn Rhoddion
	Dileu dyledion	Y Cyngor	Hyd at £100 (cant) - penaethiaid canolfannau adnoddau gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Cyllid	Adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar ddyledion wedi eu dileu.

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
			Hyd at £1,000 (mil) - rhaid cael adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros £1,000 (mil) - y Cyfarwyddwr Cyllid gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	
	Awdurdodi contractau neu weithredoedd dan sêl	Y Cyngor (gan gynnwys sêl y brifysgol)	Dau aelod o'r Cyngor ac Ysgrifennydd y Cyngor	Ordinhad 8
	Ymrwymiad a phrynu nwyddau a gwasanaethau (pan fyddant o fewn y gyllideb, neu fel arall mae angen cymeradwyaeth yr aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gweithredu).	Cyfarwyddwr Cyllid	Deon/cyfarwyddwr gwasanaethau proffesiynol <£100k Pennaeth ysgol/gwasanaethau proffesiynol <£25k	Rheoliadau Ariannol (Adran 7)
	Cytundebau prydles (heblaw eiddo)	Cyfarwyddwr Cyllid	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid	Rheoliadau ariannol

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Penodi ymddiriedolwyr pensiwn cyflogwr a enwebwyd gan y brifysgol	Y Cyngor	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	
	Rheoli Cynllun Pensiwn Prifysgol Bangor	Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn PB		
	Rheoli cyfrifoldebau Prifysgol Bangor i'r USS	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Strategaeth
8.6	Rhaglen Gyfalaf a Materion Ystadau			
	Cymeradwyo projectau cyfalaf	Y Cyngor	Bwrdd Craffu Rhaglen Gyfalaf; adroddir i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth.	Mae'r Fframwaith Rheoli Rhaglen Gyfalaf yn pennu sut y dylid categorio projectau a'r awdurdod sy'n ofynnol.
	Caffael eiddo a thir	Y Cyngor		Ordinhad 15; gan y Cyngor llawn yn unig
	Gwaredu eiddo a thir	Y Cyngor		Ordinhad 15; gan y Cyngor llawn yn unig
	Contractau eraill sy'n gysylltiedig ag ystadau (e.e. contractau adeiladu, contractau gwasanaethau)	Y Cyngor	Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws	Rheoliadau ariannol (yn unol ag Atodiad A y rheoliadau)

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	Goruchwylio llety preswyl a gwasanaethau arlwyo a lletygarwch sy'n eiddo i'r brifysgol	Y Cyngor	Pwyllgor Cyllid a Strategaeth	Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Strategaeth
	Cadw cofrestr asedau sefydlog ar gyfer yr holl offer sydd werth dros £1,000	Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws		Rheoliadau ariannol (adran 9)
8.7	Contractau, Cytundebau a Thrwyddedau			
	Cymeradwyo contractau a chytundebau (nas nodir fel arall yn y cynllun hwn)	Y Cyngor	Is-ganghellor / Dirprwy i'r Is-ganghellor / Prif Swyddog Gweithredu/ Cyfarwyddwr Cyllid / Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws Rhaid i'r Cyngor neu aelodau dirprwyedig gymeradwyo pob contract dan sêl	Rheoliadau ariannol (atodiad A)
	Contractau a chytundebau ymchwil a chontractau a chytundebau sy'n	Y Cyngor	Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Cyllid Pennaeth IRIS <£1m	Rheoliadau ariannol (adran 5.5)

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
	gysylltiedig ag ymchwil (yn cynnwys trwyddedau eiddo deallusol)			
	Cytundebau masnacheiddio a contractau sy'n ymwneud a chyfrinachedd, peidio â datgelu, trosglwyddo deunydd ac ati	Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol	Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu	
	Contractau cysylltiedig â chyflogaeth	Y Cyngor	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Rheoliadau ariannol (adran 7.10)
	Cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau gan y brifysgol	Cyfarwyddwr Cyllid	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid <£1m	Rheoliadau ariannol (adran 10), ac enwebai yn unol â chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cyllid
	Rhaglenni a ddilysir yn allanol / rhaglenni wedi eu breinio/cytundebau cydweithredol/rhaglenni ar y cyd a rhaglenni deuol, canolfannau hyfforddiant doethurol a / neu unrhyw fath arall o bartneriaeth o bwys	Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Academaidd neu'r Is-ganghellor		Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwy, Cyd-destun a Phroses
	Cytundebau cydweddu a memoranda cyd-ddealltwriaeth	Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Partneriaethau Allanol		Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol
	Cydweithio a sefydliadau addysg uwch eraill i ddarparu modiwlau hyfforddedig / modiwlau dysgu yn y gwaith	Pennaeth yr Ysgol		Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol / Gweithdrefn Dysgu ar Leoliad (Gweithdrefn 3)
	Cymeradwyo trwyddedau rheoliadol (Deddf Meinwe Dynol, Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) etc.)	Deiliad trwydded sefydliadol		
	Cymeradwyo ceisiadau gan drydydd partïon i ddefnyddio hawlfraint y brifysgol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Llyfrgell		
	Cytundebau Rhannu Data o dan y Ddeddf Diogelu Data 2018	Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu	Rheolwr Cyfraith a Chydymffurfio	

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
8.8	Materion Gwybodaeth a'r Cyfryngau			
	Cytundebau ffilmio	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand		
	Awdurdodi datganiadau i'r cyfryngau	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand		
	Cymeradwyo defnyddio arfbais/logo'r brifysgol	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand		
	Dosbarthiad gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Cynllun Cyhoeddi Prifysgol Bangor)	Prif Swyddog Gweithredu / Ysgrifennydd y Brifysgol	Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu	
	Gweithredu sancsiynau'n ymwneud â mynediad unigolion at wasanaethau a chyfleusterau llyfrgell y brifysgol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG		
	Gweithredu sancsiynau'n ymwneud â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth	Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Llyfrgell	Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu / Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau TG	
	Cymeradwyo defnydd allanol o gyfleusterau cyfrifiadurol a meddalwedd y brifysgol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG		

		Awdurdod Terfynol	Awdurdod Dirprwyedig (os oes un)	Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses
8.9	Dyletswyddau Cyfreithiol			
	Goruchwylio a rheoli deddfwriaeth iechyd a diogelwch a pholisi iechyd a diogelwch y brifysgol	Y Cyngor	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	Ordinhad 15; y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
	Goruchwylio a rheoli gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg 2011	Y Cyngor	Pwyllgor Materion y Gymraeg	Ordinhad 15; y Cyngor ar argymhelliad Pwyllgor Materion y Gymraeg